# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(72)v3

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Buddsoddi i Arbed (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Gwella Ysgolion (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Adolygiad o Wasanaethau Cynghori (30 munud)**

**6. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cynllunio a Chyflenwi Integredig (30 munud)**

**7. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Plant a Phobl Ifanc Egnïol (30 munud)**

**8. Dadl ar Ofal Iechyd y Llygaid yng Nghymru (60 munud)**

**NDM5009 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi’r camau a gymerwyd hyd yma i wella gofal iechyd y llygaid; a

2. Yn cydnabod bod yna fwy o waith i’w wneud ac y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun yn amlinellu ei hymrwymiad i wella gofal iechyd y llygaid ar gyfer pobl Cymru ymhellach fel rhan o raglen iechyd y cyhoedd ehangach.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu ‘camau a gymerwyd hyd yma’ a rhoi ‘datblygiadau a wireddwyd gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector’ yn ei le.

**Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl ‘i'w wneud,’ a rhoi'r canlynol yn ei le:

‘ac y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gydlynu rhaglen iechyd y cyhoedd ehangach a fydd yn ymgorffori newidiadau mewn prosesau monitro a chasglu data, sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi cynlluniau gwasanaethau a gwaith hybu iechyd y llygaid mwy gwybodus’.

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y cynnydd sy’n deillio o Strategaeth Olwg Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynlluniau gofal llygaid yn y dyfodol yn cysylltu â'r gwaith hwn ac yn adeiladu arno.

http://www.vision2020uk.org.uk/ukvisionstrategy/page.asp?section=134&sectionTitle=Wales+Vision+Strategy

**Gwelliant 4 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi toriadau Llywodraeth Cymru i gyllideb y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a oedd yn fwy nag erioed o’r blaen, a bod modd i’r rhain beryglu’r broses o weithredu’r cynllun gofal iechyd llygaid.

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i sicrhau bod gostyngiad mesuradwy mewn achosion o golli golwg y mae modd eu hosgoi yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynllun gofal llygaid sy'n cael ei gyhoeddi yn sicrhau bod pob plentyn pedair a phum mlwydd oed yng Nghymru yn cael profion golwg yn yr ysgol.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chasgliadau ymchwil sy'n awgrymu bod strwythur a chyfeiriad canfyddedig optometreg o ran gwerthu sbectolau yn annog y gymuned i ystyried bod profion llygaid (a gynhelir mewn siopau) yn wahanol i gamau gwarchod iechyd sylfaenol eraill.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 20 Mehefin 2012